

# Rhenti

Chwefror 2014

Mae gan y Cyngor Dîm Incwm pwrpasol sy'n gyfrifol am gasglu ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus i'r Cyngor: (01352) 703838.

Ynghyd â'r Tîm Incwm newydd, yn ddiweddar rydym wedi cyflwyno gweithdrefn Ôl-ddyledion Rhent newydd. Mae'r weithdrefn hon yn golygu bod modd i ni gymryd camau yn gynharach yn erbyn tenantiaid sy'n methu eu taliadau rhent. Gallwn sicrhau hefyd fod y tenantiaid hynny sy'n dymuno talu eu rhent ond sy'n methu, yn cael yr help sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen arnynt.

Mae'r weithdrefn Ôl-ddyledion Rhent newydd yn golygu y bydd y tenantiaid yn derbyn:

- Rhent 1 wythnos yn hwyr – llythyr atgoffa cyntaf
- Rhent 2 wythnos yn hwyr – ail lythyr atgoffa
- Rhent 3 wythnos yn hwyr – ymweliad gan y Tîm Incwm
- Rhent 4 wythnos yn hwyr – Hysbysiad Cymryd Meddiant

Os na fydd y tenant wedi clirio neu leihau ei ôl-ddyledion rhent 4 wythnos ar ôl cael Hysbysiad, byddwn yn ystyried cymryd camau cyfreithiol.

## **Beth ddylech ei wneud**

Os ydych yn cael anhawster talu'ch rhent, rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith. Byddwn yn gwneud ein gorau i'ch helpu. Os ydych yn gwybod fod gennych broblem talu, neu os ydych wedi derbyn llythyr ôl-ddyledion gennym, dylech gysylltu â'r Tîm Incwm. Bydd y Tîm Incwm yn trafod eich ôl-ddyledion â chi ac yn eich cynghori. Efallai y byddwn hefyd yn eich rhoi mewn cysylltiad â'n Swyddog Cynyddu Incwm neu Ymgynghorydd Dyledion, a fydd yn gallu'ch helpu i gymryd camau i roi trefn ar bethau, gan gynnwys gwneud cais am fudd-daliadau.

Os nad ydych yn gallu talu'r swm dyledus i gyd, gallwn greu cytundeb â chi fel bod modd i chi ei dalu'n raddol. Bydd hyn yn cynnwys talu swm ychwanegol yn ogystal â'ch rhent wythnosol dros gyfnod o amser nes bo'r ddyled wedi'i thalu. Os ydych yn derbyn Budd-dal Tai a bod eich amgylchiadau'n newid gallwch wneud cais i gael ailasesiad.

Os ydych yn gyd-denantiaid dylech gofio fod y ddau aelod o'r gyd-denantiaeth yn gyfrifol am sicrhau fod y rhent yn cael ei dalu yn llawn.

Os hoffech siarad â rhywun ynglŷn â'ch rhent, cysylltwch â'r Tîm Incwm ar (01352) 703838.